

## PRESENOLDEB Y MESEIA A'I DEYRNASU

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Profwch mai Iesu yn ddigamsyniol yw'r Meseia yn ôl cyflawniad proffwydoliaeth Feiblaidd. Eglurwch beth a olyga ei ddychwelyd yn y swyddogaeth honno i'r ddyfnoliaeth, gan bwysleisio'r bendithion ddaw i ran y rhai sy'n derbyn ei swyddogaeth fel Meseia

### **Y MESEIA—GOBAITH SEILIEDIG AR Y BEIBL** (5 mun.)

'Mae angen enbydus am feseia ar y byd,' meddai llywydd Club of Rome, grŵp amlwg o ddeallusion (*w92 10/1 3*)  
Golygai achubydd gwleidyddol, gwyddonol, neu grefyddol carismataidd a fyddai'n achub y ddynoliaeth rhag anhrefn gymdeithasol ac economaidd

Mae'n amlwg nad yw arweinwyr byd presennol yn cynnig unrhyw ateb i broblemau tlodi, newyn, trychineb amgylcheddol, chwyddiant, ac yn y blaen

'Does 'na ddim gwaredwr gwirioneddol yn y golwg chwaith

Cyfeiria'r Beibl at y Meseia, neu'r Un Eneiniog, yn sail gobaith cadarn

Defnyddiwyd yr ymadrodd am frenhinoedd ac offeiriaid Israel (*it-1 113; w92 10/1 7*)

Daeth i olygu gwaredwr fyddai'n frenin ac archoffeiriad

Gwneir y cyfeiriad proffwydol cyntaf at y Meseia yn Genesis 3:15

Yn farddonol fe ddisgrifia'r adnod "had" fyddai'n dadwneud drygioni

Golyga hyn y bendithion gorau posibl i'r holl ddyfnoliaeth—gwaredigaeth!

Wrth i'r canrifoedd fynd heibio, darparodd Duw broffwydoliaethau Meseianaidd pellach

Cyfeiria tystiolaeth yn eglur at Iesu o Nasareth fel y Meseia addawedig

Pa dystiolaeth? Sut gall cydnabod y Meseia fod o fudd tragwyddol i chwi?

### **ADNABOD Y MESEIA** (10 mun.)

(1) Cyflawnodd Iesu ugeiniau o broffwydoliaethau Meseianaidd (*w92 10/1 9-10*)

Disgynnydd i'r Brenin Dafydd (2Sam 7:12, 13)

Cyfeiria Mathew 1:1 ato fel "Mab Dafydd, mab Abraham"

Nid amheudd gelynyddion Iesu erioed mo'i linach (*it-1 915*)

(2) Cyfeirio pendant at Iesu fel y Meseia

Cyhoeddiad angylaidd adeg ei eni yn cyfeirio ato'n bendant fel yr un "sydd i fod yn Feseia i chwi" (Lc 2:11, *Charles B. Williams*)

Yn 29 C.C., adeg bedyddio Iesu, Jehofah ei hun eneiniodd Iesu â'r ysbryd glân (Lc 3:21, 22)

Gallai Iesu gyhoeddi felly mai ef ei hun oedd y Meseia yn unol â phroffwydoliaeth (Eseia 61:1, 2; Lc 4:16-21)

(3) Daeth ymddangosiad Iesu fel Meseia ar yr union amser a broffwydwyd yn Daniel 9:24-27 (*it-2 899-904; w92 10/1 11-12*)

(Fel bydd amser yn caniatáu, defnyddiwch eitemau dyfynedig o *w92 10/1 11 par. 11*)

### **PAM BU I'R MWYAFRIF WRTHOD IESU FEL MESEIA** (5 mun.)

Disgwyliai'r genedl Iddewig am arwr o ryfelwr fyddai'n eu gwaredu nhw rhag gormes Rhufain (*w92 10/1 13-14*)

Credent y byddai'n cychwyn Oes Feseianaidd ar ei ymddangosiad cyntaf

'Roedd disgwyblion Iesu hyd yn oed yn rhannu'r gamdybiaeth hon (Act 1:6)

'Roedd angau Iesu dan warth cyhoeddus yn groes i ddisgwyliadau Iddewig

Rhagfynegyd angau'r Meseia fel aberth yn Daniel 9:24-27

'Roedd ei 'ladd' yn gwneud iawn am bechod a'i derfynu; gwasanaetha'i fywyd perffaith, roddwyd yn aberth, yn bridwerth dros y ddynoliaeth

Mae Eseia 52:13-53:12 hefyd yn sôn am ddiodefaint a marwolaeth y Meseia

Byddai'r Meseia yn 'gweld ei had' ac yn "estyn ei ddyddiau" (Eseia 53:10)

'Fyddai hyn ddim yn bosib' dim ond pe atgyfodid y Meseia o farw (Salmu 16:10)

Byddai'r Iesu atgyfodedig, gogoneddedig felly yn medru dychwelyd a chyflawni gweddill y proffwydoliaethau Meseianaidd (Heb 10:12, 13)

### **DYCHWELIAD A PHRESENOLDEB MESEIA—EI YSTYR I NI HEDDIW** (15 mun.)

Mae'r 'presenoldeb' dros gyfnod o flynyddoedd lawer, gyda sylw arbennig i'r ddaear

Fel "yn nyddiau Noa" (Mth 24:37-39; *it-2 676-9; w92 10/1 16*)

Crybwyllodd Iesu y byddai'r presenoldeb hwn yn anweladwy (In 14:19)

Mae'n wir y dywed Datguddiad 1:7, "y mae'n dyfod gyda'r cymylau, a bydd pob llygad yn ei weld," ond mae "cymylau" yn awgrymu anweledigrwydd (Act 1:9; *re 19-20*)

Mae canlynwyr yn “gweld” trwy ddirnad yr “arwydd” a roddodd Iesu yn Mathew 24, 25

Mae digwyddiadau'r byd a chronoleg Feiblaidd yn profi'n ddigamsyniol fod Iesu'n anweledig bresennol oddi ar 1914 (Cyfeiriwch at *w90* 10/15 18-19)

Bu gwir Gristnogion yn disgwyl am hyn am tua 38 mlynedd cyn 1914

Adlewyrchir hyn yng nghyhoeddiad cadarnhaol C. T. Russell (*w90* 10/15 19)

Arwyddocâd? Meseia 'nawr wedi'i orseddu; y Deyrnas 'nawr yn teyrnasu (Dat 12:10)

Eto, rhywbeth i ddod yn y dyfodol yw'r Oes Feseianaidd hir-ddisgwylidig

Teyrnasa'r Meseia am gyfnod yng nghanol ei elynion (Salmau 110:1, 2)

Gwaith pregethu byd-eang yn cael ei wneud (Mth 24:14)

Yn fuan y Deyrnas i ddinistrio gelynyon y Meseia (Salmau 110:5, 6)

Felly bydd y Meseia yn dod â'r achos pennaf a godwyd gan Satan i ben (*it-2* 16)

Bydd yn dadwneud pob problem yn deillio o'r gwrthryfel hwnnw (Heb 2:14)

**MWYNHEWCH FENDITHION TEYRNASU'R MESEIA!** (10 mun.)

Cyflawnir proffwydoliaeth Eiseia 11 yn llawn a llwyr (*w92* 10/1 18-19)

Adnodau 1-5 yn disgrifio nodweddion Iesu fel brenin cyflawn

Adlewyrchir cyflawniad ysbrydol adnodau 6-9 wrth i Grist, a chanddo 'bob awdurdod a gallu yn y nef ac ar y ddaear,' gyfarwyddo trawsnewid y ddaear yn Baradwys fyd-eang (Mth 28:18; *ws* 174)

Cyfeirio mae at drawsnewid personoliaethau bwystflaidd 'nawr ac yn y dyfodol

Edrychwn ymlaen hefyd at gyflawni hyn yn llythrennol ym myd yr anifeiliaid

Gwaith addysgol mawr eisoes wedi cychwyn; ei weithredu gan Dystion Jehofah mewn rhagor na 200 o wledydd

Mae Crist mewn grym brenhinol 'nawr yn sefyll fel “baner” (“arwydd,” *BCL*); mae miliynau ymhlith y “cenhedloedd” wedi ymateb (Eiseia 11:10)

Ni ddatblygodd unrhyw gau feseia Iddewig y fath gefnogaeth ymhlith y Cenhedloedd

'Ydych chi wedi dod dan y faner Feseianaidd (ymateb i'r arwydd) drwy goleddu gobaith y Deyrnas?

Os ydych neu beidio, parhewch i gynyddu mewn gwybodaeth am Jehofah

Parhewch i fynychu cyfarfodydd a chymdeithasu â'r gynulleidfa

Rhaid i Dystion sydd wedi'u cysegru'u hunain barhau yn ddiysgog i daenu gwybodaeth am Jehofah i bawb wnaiff wrando (1Cor 15:58)

Boed inni fod yn helaeth yng ngwaith yr Arglwydd nes bydd y Meseia yn fuddugol—er gogoniant tragwyddol i Dduw ac er lles bythol i ninnau!

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir)

Rhif 91—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 45 MUNUD